Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Joanna Jones**

**Aberystwyth**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Joanna Jones yn rhedeg gwasanaeth gwarchod plant o'i chartref teuluol ym mhentref Penrhyn-coch, ger Aberystwyth. Mae wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 10 plentyn o dan 12 oed. Yr oriau agor yw dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.00am a 17.00pm ac eithrio cau am bythefnos dros wyliau'r Nadolig. Nid yw'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, ac nid yw'n gweithio tuag ato. Fodd bynnag, mae'r gwarchodwr plant yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn cynnig / hyrwyddo hwn fel gwasanaeth dwyieithog.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus yn y gwasanaeth hwn. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio dull cyfeillgar, brwdfrydig a gofalgar o weithredu, ac mae'n rhoi sylfaen gadarn i'r plant ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r amgylchedd dan do yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant fod yn greadigol, chwarae a dysgu. Mae'r ardd gefn yn rhoi cyfleoedd dyddiol i'r plant fod yn yr awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol ac mae wedi nodi meysydd mae'n bwriadu eu datblygu.

### 2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â diweddaru'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth o ran y newid diweddar i'r oriau agor. Mwy o fanylion yn y dyddiadur gwarchod plant dyddiol a chynnal ymarferion tân ar adegau addas ar gyfer y gwasanaeth.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn cyfleu eu hanghenion yn hyderus mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol. Maent yn mynd at y gwarchodwr plant yn gyfforddus ac o ganlyniad maent yn gyfforddus, wedi ymgartrefu ac wedi ymlacio. Mae'r plant yn cael hwyl ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn cyfleu eu hanghenion a'u ceisiadau yn hyderus.

Gwelsom fod y plant yn gallu mynegi eu hanghenion am eu bod yn gwybod y bydd y gwarchodwr yn gwrando arnynt. Roedd pob ymdrech i gyfathrebu yn cael ei werthfawrogi. Roedd un o'r plant hefyd yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn deall ei deimladau a'i arwyddion di-eiriau oherwydd cafodd y plentyn anogaeth a'i gofleidio wrth fynegi'r angen am sylw. I gyd-fynd â'u cam datblygu, rhoddwyd amser a chymorth i'r plant wneud pethau drostynt eu hunain. Roedd anghenion unigol yn cael blaenoriaeth dros drefniadau dyddiol. Er enghraifft, anogwyd babi i ddewis teganau o ddiddordeb; bwydo ei hunan amser cinio a chysgu yn unol â'i anghenion.

Gwrandewir ar y plant a rhoddir gofal ymatebol iddynt.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn mynd at y gwarchodwr plant yn hwylus ac maent yn cael sicrwydd gyda gofal a hoffter.

Gwelsom fod y plant yn ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus. Roedd y plant yn datblygu cyswllt cryf â'r gwarchodwr plant a oedd yn eu cofleidio a'u cusanu pan roeddent wedi blino neu os oedd angen ychydig o gysur arnynt. Roeddent yn cael canmoliaeth gydag iaith gadarnhaol ac roedd y gwarchodwr plant yn diwallu eu hanghenion gyda hoffter gwirioneddol. Roedd y plant yn y cyfnod setlo yn dod yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac roeddent yn fodlon eu byd ac yn hapus. Gwelsom y plant yn mynd at y gwarchodwr plant pan roeddent am gael eu cario, eu cofleidio neu gael cymorth gyda gweithgaredd. Roedd y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am fod eu teimladau, eu hoffterau a'u cas bethau yn cael eu hystyried yn ystod amser byrbryd ac wrth chwarae.

Rhoddir gofal i'r plant sy'n gwerthfawrogi eu hanghenion a'u dymuniadau, gan helpu i gynnal llesiant cadarnhaol.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol.

Roedd y plant yn ymddwyn yn dda, roedd y gwarchodwr plant yn siarad â nhw yn eu mamiaith ac roedd hyn yn ychwanegu at eu hymdeimlad o sicrwydd. Gwelsom y plant iau yn dechrau deall eu teimladau, cydweithredu a chymryd tro, er enghraifft, roedd babi yn rhyngweithio â'r gwarchodwr plant yn ei gwahodd i chwarae, a dilynodd y gwarchodwr plant arweiniad a chyflymder y plentyn. Roedd cwrteisi yn cael ei annog megis dweud os gwelwch yn dda a diolch. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y plant hŷn yn gwybod y rheolau ar gyfer y gwasanaeth ac maent ynghlwm wrth ddangos parch at yr adnoddau a'r eiddo. Er enghraifft, drwy dynnu eu hesgidiau awyr agored y tu mewn, bwyta wrth y bwrdd yn gymdeithasol ac ymarfer cwrteisi.

Mae'r plant yn deall yr ymddygiadau sy'n ddisgwyliedig ganddynt ac maent yn dechrau cydymffurfio â nhw.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn chwilfrydig am y gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae sydd ar gael iddynt ac maent yn ennyn eu diddordeb.

Gall y plant archwilio eu hamgylchedd yn rhydd ac yn ddiogel. Cynhaliodd un babi ddiddordeb yn yr amrywiaeth o deganau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a oedd ar gael a gwnaeth gyffroi wrth iddynt wneud sŵn drwy ysgwyd ratlau ac offerynnau cerdd amrywiol. Rhoddodd y gwarchodwr plant gymorth ac anogaeth i helpu'r babi i ymgysylltu â maes chwarae a chanolbwyntio arno. Gwnaeth ddynwared y synau wrth i'r babi faldorddi mewn boddhad. Gwelsom hefyd fod y plant yn gallu mwynhau amser tawel drwy gael eu cofleidio yng nghôl y gwarchodwr plant wrth edrych drwy lyfr lluniau.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac mae diddordeb ganddynt yn y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Gall y plant gyflawni pethau drostynt eu hunain, datblygu a dysgu sgiliau newydd.

Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y plant yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau hunangymorth. Aeth llawer ohonynt i'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol. Yn ystod prydau bwyd cânt eu hannog i osod y bwrdd, gosod eu pecynnau bwyd eu hunain ac arllwys eu diodydd eu hunain. Disgwylir i'r plant dacluso ar ôl chwarae a gofalu am eu heiddo drwy ei roi ar eu bachynau unigol. Gwelsom fabi yn cael ei annog i fwydo â llwy a dal ei ddwylo allan i'w golchi ar ôl cinio.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn gadarnhaol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o ddiogelu ac mae'n sicrhau y caiff y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer y gwasanaeth eu rhoi ar waith bob dydd. Mae ganddi gyfoeth o brofiad o weithio gyda phlant ers sawl blwyddyn fel mam ei hun a chyn hynny yn ei rôl fel nani gymwys ym Mhrydain ac yn rhyngwladol.  Mae'n defnyddio strategaethau y cytunwyd arnynt i reoli achosion o ryngweithio amhriodol yn amyneddgar a charedig tu hwnt. Mae'r gwarchodwr plant yn hynod ofalgar, yn fagwrus ac yn ymateb i anghenion unigol y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig iawn ac yn deall ei rôl a'i chyfrifoldebau o ran diogelu a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw.

Pan ofynnwyd iddi, roedd y gwarchodwr plant yn hyderus ac yn gywir am y gweithdrefnau y byddai'n eu dilyn os byddai ganddi unrhyw bryderon am blentyn yn ei gofal. Fodd bynnag, argymhellir bod y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cymryd rhan mewn ymarferion tân rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth i'w wneud os byddai'n rhaid iddynt adael yr adeilad yn gyflym mewn argyfwng. Er mwyn gwella hyn ymhellach rydym yn argymell bod y cofnodion yn adlewyrchu pa mor dda oedd yr ymarferion a beth y gallai fod angen ei wneud i wella ymarferion tân yn y dyfodol. Gwnaeth y gwarchodwr plant ein sicrhau y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn yn ddi-oed.

Gwelsom fod arferion iach yn cael eu hyrwyddo drwy gydol yr arolygiad megis gweithdrefnau golchi dwylo a newid cewynnau a oedd yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014). Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo bwyta'n iach a thrafododd y ffordd roedd wedi bod yn cydweithio â'r rhieni i'w hannog i wneud dewisiadau iachach o ran byrbryd a bocsys cinio i'w plant; roedd yn sicrhau bod y plant yn cael digon o ddŵr i'w yfed yn ystod y dydd gan fod digon o ddŵr ffres ar gael. Roedd gan y gwarchodwr plant dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, a oedd yn ei galluogi i roi cymorth cyntaf yn briodol, neu ymdrin ag unrhyw faterion meddygol a allai godi. Cawsai damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n briodol.

Yn aml caiff y plant eu cerdded i grwpiau ac i'r ysgol ac yn ôl i sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i wneud ymarfer corff a chael awyr iach.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach bob amser mewn ffordd gymwys.

## 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithio mewn ffordd garedig ac amyneddgar.

Roedd y gwarchodwr plant yn dathlu rhyngweithio priodol drwy ddefnyddio iaith gadarnhaol a thôn dyner. Roedd y gwarchodwr plant yn modelu ymddygiad da drwy hyrwyddo cwrteisi gan annog y plant i ddweud os gwelwch yn dda a diolch drwy'r dydd.

Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth gadarn o anghenion unigol y plant ac mae'n darparu ar gyfer y rhain mewn awyrgylch magwrus a hamddenol.

Roedd y gwarchodwr plant yn dangos dealltwriaeth o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, yn cynllunio themâu a oedd o ddiddordeb i'r plant ac yn eu helpu i weithio tuag at eu canlyniadau datblygiadol. Caiff cynnydd a datblygiad y plant eu cofnodi. Roedd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol drwy amrywiaeth o adnoddau amlddiwylliannol ac yn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn barhaus. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o anghenion dysgu ychwanegol a'r ffordd y gellir cefnogi'r rhain os cânt eu nodi gyda chymorth rhieni ac asiantaethau allanol.

Mae'r gwarchodwr plant yn creu cyfleoedd i'r plant ddysgu a datblygu'n llwyddiannus drwy chwarae.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod risgiau diangen i'r plant wedi cael eu nodi a'u dileu cymaint â phosibl. Mae'r amgylchedd dan do yn ddiogel, wedi'i gynllunio'n dda, yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Yn yr awyr agored, mae cyfarpar a gweithgareddau ar gael i'r plant sy'n annog gweithgarwch corfforol ac yn hyrwyddo eu chwarae a'u dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod dodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau ar gael i'r plant a'u bod yn briodol ac yn addas ar gyfer eu hanghenion a'u cam datblygu.

### Ein canfyddiadau

#### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel.

Gwelsom fod drysau allanol yr adeilad wedi'u cloi fel y nodwyd yn y polisi iechyd a diogelwch ar gyfer y gwasanaeth. Wrth gyrraedd, gofynnwyd i ni lofnodi llyfr ymwelwyr gan gynnwys yr union amser y gwnaethom gyrraedd a gadael. Nodwyd bod cofnod o ymwelwyr gan gynnwys y rheswm dros eu hymweliad.

Roedd pob ardal yn ddiogel. Gwelsom ystod o asesiadau risg ysgrifenedig a oedd yn dangos bod y gwarchodwr plant yn dangos bod mesurau priodol ar waith ar gyfer risgiau posibl a sut y gellir eu lleihau neu eu dileu. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod gan y gwarchodwr plant drefniadau da ar gyfer bwydo o'r botel, paratoi bwyd, golchi dwylo a newid cewynnau a oedd yn hyrwyddo rheoli heintiau'n effeithiol.

Mae'r gwarchodwr plant yn gofalu am y plant mewn amgylchedd glân a diogel sy'n diwallu eu hanghenion.

#### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr adeilad a'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar.

Roedd y gwarchodwr plant wedi darparu ardal chwarae ddigonol dan do a oedd yn lân ac yn olau. Roedd y plant yn teimlo eu bod yn perthyn; roedd ganddynt eu bachyn cotiau eu hunain a bagiau ar gyfer eiddo personol. Roedd y gwarchodwr plant hefyd wedi arddangos gwaith y plant am natur a gwaith â thema dymhorol ar wal yr ystafell chwarae. Roedd yr ystafell fyw / cegin fwyta cynllun agored a'r ystafell chwarae ychwanegol yn darparu amgylchedd addas i'r plant. Roedd pob ardal yn cynnwys digon o adnoddau a chyfarpar chwarae o ansawdd da. Roedd y dodrefn yn briodol ac o ansawdd da. Roedd yr ardd gefn wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac roedd yn ddiogel gyda digon o gyfarpar chwarae a digon o le i'r plant. Roedd hyn yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd datblygu sgiliau megis dringo, cydbwyso, plannu a chloddio. Caiff ci'r teulu ei gadw mewn ardal ar wahân. Mae'r plant yn defnyddio'r toiled a'r sinc lawr llawr, a chaiff y plant iau eu goruchwylio wrth olchi eu dwylo.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y caiff yr holl amgylchedd ei ddefnyddio'n hyblyg ac mae'n creu ymdeimlad da o ddiogelwch a pherthyn ac yn hwyluso amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer yr ystod oedran mae'n gofalu amdani.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau ar gael i'r plant sy'n briodol ac yn addas ar gyfer eu hanghenion.

Roedd yr adnoddau a'r teganau o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant. Roeddent wedi'u trefnu'n dda mewn grwpiau oedran priodol fel y gallai'r plant ddilyn eu diddordebau. Roedd pethau'n cael eu storio ar lefel isel ac roedd hyn yn galluogi'r plant i gael gafael ar ddeunyddiau a theganau yn hawdd. Roedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau bod rhai adnoddau yn adlewyrchu'r gymdeithas ehangach, a oedd yn helpu i godi ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sydd ag adnoddau da i wella profiadau'r plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant ymdeimlad o ddiben sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliant a chanlyniadau da i'r plant. Mae cryfderau a meysydd i'w datblygu yn cael eu cydnabod, a chymerir camau gweithredu er mwyn cynnal a gwella ymarfer. Fodd bynnag, atgoffir y gwarchodwr plant i lunio adroddiad ar ansawdd y gofal o fewn blwyddyn o gofrestru. Mae gwaith y gwarchodwr plant o gadw cofnodion wedi'i drefnu'n dda ac mae'n ymwybodol o'i rôl a'i chyfrifoldebau i ddiogelu'r plant yn ei gofal.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'n cymhwyso dulliau arloesol i gofnodi manylion a chynnydd y plant.

Yn gyffredinol, gwelsom fod y datganiad o ddiben yn cyfleu ei gwasanaeth yn dda. Mae ganddi nodau clir a chaiff polisïau eu hadolygu a'u diweddaru. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod angen cynnwys y newid diweddar yn yr oriau agor a'r aelod ychwanegol o'r cartref sydd ar ddod yn y datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth. Roedd y dyddiadur gwarchod plant ar waith a gwnaethom awgrymu y dylid cynnwys mwy o wybodaeth, am y ffordd mae'r plant wedi treulio eu hamser gyda'r gwarchodwr plant, gan gynnwys pa fyrbrydau oedd yn cael eu cynnig.

Yn gyffredinol, mae'r arweinyddiaeth yn drefnus ac yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant rai systemau ar waith i werthuso a datblygu'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu.

Roedd y gwarchodwr plant yn frwdfrydig ac yn ofalgar, yn sicrhau bod y plant yn mwynhau eu hamser gyda hi. Roedd y gwarchodwr plant wedi adolygu ei gwasanaeth yn rhannol. Gwelsom dystiolaeth ei bod wedi ceisio barn y rhieni a'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn bwriadu cwblhau ei hadolygiad blynyddol cyntaf erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf o warchod a chadarnhaodd y byddai AGC a'r rhieni yn cael copi.

Mae newidiadau'n cael eu gwneud sy'n gwella'r gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau yn briodol.

Mae gan y gwarchodwr plant gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig cyfredol ac mae wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu, ac wedi ymgymryd â hyfforddiant e-ddiogelwch a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gwarchodwr plant yn ddwyieithog ac mae'n

hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n gweithio tuag at y ‘Cynnig Rhagweithiol’, sy'n cynnwys ei holl ddogfennau ysgrifenedig, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i wella a datblygu ei hymarfer drwy gwblhau hyfforddiant perthnasol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda â'r rhieni a'r gymuned leol.

Siaradodd â ni am y cyfleoedd chwarae a dysgu sydd ar gael yn yr ardal leol, megis ei bwriad i ymweld â'r grŵp plant bach wythnosol yn neuadd y pentref a mynd i amser stori yn y llyfrgell leol i helpu datblygiad cymdeithasol y plant. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod ganddi gydberthnasau cadarnhaol â'r rheini a'i bod yn rhoi gwybodaeth am gynnydd eu plant bob dydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd partneriaethau effeithiol â'r rhieni.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- diweddaru'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth o ran y newid diweddar i'r oriau agor;
- cynnwys mwy o wybodaeth yn y dyddiadur gwarchod plant dyddiol
- cynnal ymarferion tân ar adegau addas a chynnwys myfyrdod ysgrifenedig o ymarferion tân
- cwblhau adroddiad adolygu ansawdd y gofal erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf o weithredu.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau wedi'u trefnu. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar fyr rybudd i sicrhau argaeledd ddydd Mercher 29 Awst 2018 rhwng 10:45 a 14:00

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a ddarperir;
- siarad â'r babi a oedd yn bresennol
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir;
- rhoi adborth i'r gwarchodwr plant ar ddiwedd yr ymweliad.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Joanna Jones** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **O dan 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener 8:00am – 17:30pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth gael ei arolygu** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu** | **29 Awst 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Na** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Na** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Na** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |